The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

## Cyflwyniad

# 1. Cyflwyniad

### *Trosolwg o'r broses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol*

1.1. Darperir y sail statudol ar gyfer y broses Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol ("DNS") gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf"), a Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd) a Rheoliadau dilynol.

1.2. Diben y broses DNS yw sicrhau bod penderfyniadau amserol yn cael eu gwneud ynglŷn â'r ceisiadau hynny sydd o'r arwyddocâd mwyaf i Gymru, oherwydd eu buddion a'u heffeithiau posibl.

1.3. Cyflwynir ceisiadau i Arolygiaeth Gynllunio Cymru ("yr Arolygiaeth") i'w hystyried gan Arolygydd a benodir. Yna, bydd yr Arolygydd a benodir yn ystyried tystiolaeth gan yr ymgeisydd, yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), ymgyngoreion statudol eraill a phartïon â buddiant.

1.4. Ar ôl ystyried y dystiolaeth, bydd yr Arolygydd yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer Gweinidogion Cymru, yn amlinellu ei gasgliadau ac yn gwneud argymhelliad ynglŷn â ph'un a ddylid rhoi caniatâd cynllunio i'r cais ai peidio.

1.5. Mae'r diagram ar y dudalen ganlynol yn rhoi trosolwg sylfaenol o'r broses ymgeisio DNS.

### *Cynnwys y gymuned*

1.6. Cydnabyddwn efallai na fydd gan bobl leol reswm i ymwneud â cheisiadau cynllunio yn aml iawn. Oherwydd hynny, rydym hefyd wedi cynhyrchu canllaw hwylus i'r broses DNS sy'n canolbwyntio ar sut a phryd y gall pobl gymryd rhan.

### *Cysylltu â ni*

1.7. I drafod cais penodol neu ofyn am wybodaeth am y broses DNS, gallwch gysylltu â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Arolygiaeth Gynllunio Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Llinell Ymholiadau Cyffredinol: 0303 444 5940
E-bost: dns.wales@planninginspectorate.gov.uk

***Camau Cais DNS***

**Ymgysylltu ac ymgynghori cyn-ymgeisio**

**Cam 1: Cyn-ymgeisio**

- Cyfarfodydd Dechreuol a Chyngor Cyn-ymgeisio
- Mae'r datblygwr yn rhoi cyhoeddusrwydd i gynigion drafft, ac yn ymgysylltu â'r awdurdod cynllunio lleol, cymunedau yr effeithir arnynt ac ymgymerwyr statudol i amlygu materion a chyfnewid safbwyntiau.

*DS: Y datblygwr sydd i benderfynu sut i gynnal 'ymgysylltiad' cynnar.*

- Mae'r datblygwr yn cyflwyno hysbysiad o fwriad i gyflwyno DNS
- Mae'r Arolygiaeth yn derbyn yr hysbysiad (10 niwrnod gwaith)

- Mae'r datblygwr yn cynnal ymgynghoriad cyn-ymgeisio statudol

**Cyflwyno'r cais ac ymgynghori**

**Cam 2: Cyflwyno'r cais**

- Mae'r datblygwr yn cyflwyno cais gydag Adroddiad Ymgynghori (cyfnod dilysu 42 ddiwrnod ar gyfer achosion Asesu Effeithiau Amgylcheddol (EIA) a 28 niwrnod ar gyfer pob un arall)
- Os yw'r cais yn ddilys, bydd yr Arolygiaeth yn rhoi cyhoeddusrwydd iddo ac yn ymgynghori arno
- Mae'r ACLl yn paratoi Adroddiad ar yr Effaith Leol

- *Rhoddir 10 niwrnod gwaith i'r datblygwr ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben i benderfynu p'un ai diwygio'r cais ai peidio*

**Archwiliad a phenderfyniad**

**Cam 3: Yr Archwiliad**

- Penodir Arolygydd i 'archwilio'r' cais a bydd yn penderfynu ar y weithdrefn
- Bydd yr Archwiliad ar ffurf cynrychiolaethau ysgrifenedig, gwrandawiad neu ymchwiliad, neu gyfuniad o'r tri

- *Mae'n rhaid i'r Arolygydd a benodir ystyried yr holl gynrychiolaethau ac unrhyw faterion a godwyd, a bydd yn ysgrifennu adroddiad ar gyfer Gweinidogion Cymru yn argymell p'un a ddylid rhoi neu wrthod caniatâd cynllunio*

**Cam 4: Penderfyniad**

- Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cais ac yn cyhoeddi'r penderfyniad hwnnw

### *Beth yw Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS)?*

1.8 Er mwyn i brosiect fod yn DNS, mae trothwyon a meini prawf penodol yn berthnasol.

1.9 Mae union fanylion y meini prawf sy'n ymwneud â phrosiectau amrywiol ar gael yn Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016 (fel y'u diwygiwyd).

1.10 Ar 1 Ebrill 2019, estynnwyd y trothwyon DNS sy'n ymwneud â gorsafoedd cynhyrchu; o ganlyniad, mae pob prosiect cynhyrchu ynni rhwng 10MW a 350MW yn dod o fewn y system DNS.

1.11 Felly hefyd llinellau trydan uwchben hyd at 132kV sy'n gysylltiedig â gorsaf gynhyrchu ddatganoledig.

1.12 Gall prosiectau DNS sy'n ymwneud â mwy nag un maen prawf penodol (er enghraifft, cynllun sy'n ymwneud â rheilffordd a phaneli solar) gael eu cynnwys mewn un cais ac un ffi ymgeisio gysylltiedig, ar yr amod eu bod yn rhan o'r un prosiect. Mae prosiectau DNS sy'n cynnwys llinellau trydan uwchben wedi'u cynnwys yn yr egwyddor hon

1.13 Nid yw prosiectau storio ynni yn dod o fewn y system DNS mwyach. I bob pwrpas, gall ACLlau benderfynu ar bob prosiect storio ynni hyd at 350MW. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys cynlluniau storio hydrodrydanol pwmpiedig rhwng 10MW a 350MW sy'n dod o fewn y system DNS o hyd.

### *Gofynion i rai prosiectau DNS fod yn Barod i Ddal Carbon*

1.14 Mae'n rhaid i geisiadau ar gyfer ffatrïoedd hylosgi sydd â chapasiti o 300MW neu fwy gael eu hategu gan asesiadau sy'n ymwneud â dal, cludo a storio $CO_2$. Mae hyn yn unol â Chyfarwyddeb yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar Storio Carbon Deuocsid yn Ddaearegol.

1.15 Yn dibynnu ar ganlyniadau'r asesiadau hynny, fe allai fod yn ofynnol i'r prosiect gynnwys offer dal carbon, i wneud y ffatri arfaethedig "yn barod i ddal carbon" (CCR).

1.16 Mae Rheoliadau Parodrwydd i Ddal Carbon (Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan) 2013 (fel y'u diwygiwyd) yn darparu'r manylion angenrheidiol. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig (DU) wedi cynhyrchu canllawiau'n flaenorol, sy'n amlinellu'r prosesau a'r gofynion angenrheidiol, ac maen nhw ar gael yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/43609/Carbon_capture_readiness_-_guidance.pdf